

Sut i wneud celf o diwb o bâst tomato gan Emma Jones



Byddwch angen
Tiwb gwag o bâst tomato
Siswrn
Hen feiro heb inc neu rywbeth tebyg Llwy



Torrwch waelod a brig y tiwb.
Torrwch un o'r ochrau.
Agorwch ef a gwardwch yr hen gynnwys a'i sychu



Mae'n aur y tu mewn!



Llyfnhewch y tiwb â chefn llwy gan symud mewn cylchoedd.



Penderfynwch ar eich cynllun. Trowch y tiwb drosodd a defnyddiwch hen feiro i wneud marciau. O bwysô'n galed bydd y marciau'n amlycach. Wrth gwrs rhaid cofio mai delwedd wrthwyneb a gewch. Gallwch wneud marciau ar yr ochr aur hefyd.



Y peth pwysicaf yw cael hwyl! Gallwch ddarlunio dros ddarn bach ohono neu'r cyfan. Gallwch ei hongian wedyn yn eich gweithle neu ei ddefnyddio'n fan cychwyn ar gyfer creu llun. Rwy'n mwynhau clytwaith, felly ychwanegais gorff o ddarn o bapur wedi'i baentio gyda choesau.

Gobeithio y rhowch gynnig arni!

